Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **10 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

Mae Rheoliadau 2018 yn diwygio deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar Loegr yn unig. Gweler isod y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio sy'n ymwneud â Chymru:

<u>Deddfwriaeth Sylfaenol Ddomestig - wedi'i diwygio</u>

1. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (EPA 1990);
2. Deddf yr Amgylchedd 1995 (EA 1995); a
3. Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (PPCA 1999);

<u>Deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwysadwy - wedi'i diddymu</u>

<u>Rheoliadau'r UE</u>

4. Rheoliad (EC) Rhif 1221/2009 ar gyfranogiad gwirfoddol sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio cymunedol (EMAS), sy'n dirymu Rheoliad (EC) Rhif 761/2001 a Phenderfyniadau gan y Comisiwn 2001/681/EC a 2006/193/EC.
5. Rheoliad (EC) Rhif 66/2010 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Ecolabel yr UE.
6. Rheoliad gan y Comisiwn (EU) Rhif 782/2013 yn diwygio Atodiad III i Reoliad (EU) Rhif 66/2010 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Ecolabel yr UE.
7. Rheoliad gan y Comisiwn (EU) 2017/1505 yn diwygio Atodiadau I, II a III i Reoliad (EC) Rhif 1221/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyfranogiad gwirfoddol sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio Cymunedol (EMAS).
8. Rheoliad gan y Comisiwn (EU) 2017/1941 yn diwygio Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 66/2010 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Ecolabel yr UE.

Penderfyniadau'r UE

9. Penderfyniad Rhif 2179/98/EC gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch adolygu rhaglen y Gymuned Ewropeaidd o bolisïau a chamau gweithredu mewn perthynas â'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy 'Towards sustainability'.

10. Penderfyniad gan y Comisiwn 2010/709/EU sy'n sefydlu Bwrdd Ecolabelu'r Undeb Ewropeaidd.

11. Penderfyniad gan y Comisiwn 2011/330/EU ynghylch sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer nodiaduron.

12. Penderfyniad gan y Comisiwn 2011/333/EU ynghylch sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer papur copïo a graffeg.

13. Penderfyniad gan y Comisiwn 2011/337/EU ynghylch sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cyfrifiaduron personol.

14. Penderfyniad gan y Comisiwn 2011/381/EU ynghylch sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i ireidiau.

15. Penderfyniad gan y Comisiwn 2011/740 sy'n diwygio Penderfyniadau 2006/799/EC, 2007/64/EC, 2007/506/EC, 2007/742/EC, 2009/543/EC a 2009/544/EC er mwyn estyn dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i rai cynhyrchion.

16. Penderfyniad gan y Comisiwn 2011/832/EU ynghylch canllaw ar gofrestriad corfforaethol yr UE, cofrestriad trydydd gwledydd a byd eang o dan Reoliad (EC) Rhif 1221/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyfranogiad gwirfoddol sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio cymunedol (EMAS).

17. Penderfyniad gan y Comisiwn 2012/448/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer papur papur newydd.

18. Penderfyniad gan y Comisiwn 2012/481/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer papur print.

19. Penderfyniad gan y Comisiwn 2013/131/EU sy'n sefydlu'r canllaw i ddefnyddwyr sy'n disgrifio'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cymryd rhan yn EMAS, o dan Reoliad (EC) Rhif 1221/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyfranogiad gwirfoddol sefydliadau mewn cynllun Eco reolaeth ac archwilio Cymunedol (EMAS).

20. Penderfyniad gan y Comisiwn 2013/135/EU sy'n diwygio Penderfyniadau 2007/506/EC a 2007/742/EC er mwyn estyn dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i rai cynhyrchion.

21. Penderfyniad gan y Comisiwn 2013/250/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer tapiau glanweithiol.

22. Penderfyniad gan y Comisiwn 2013/295/EU sy'n diwygio Penderfyniadau 2006/799/EC, 2007/64/EC, 2009/300/EC, 2009/543/EC, 2009/544/EC, 2009/563/EC, 2009/564/EC, 2009/567/EC, 2009/568/EC, 2009/578/EC, 2009/598/EC, 2009/607/EC, 2009/894/EC, 2009/967/EC, 2010/18/EC a

2011/331/EU er mwyn estyn dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i rai cynhyrchion.

23. Penderfyniad gan y Comisiwn 2013/641/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer toiledau a throethfeydd dwrlif.

24. Penderfyniad gan y Comisiwn 2013/806/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cyfarpar delweddu.

25. Penderfyniad gan y Comisiwn 1386/2013/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Rhaglen Weithredu Gyffredinol gan yr Undeb ynghylch yr Amgylchedd hyd 2020 sef ‘Living well, within the limits of our planet’.

26. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/256/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cynhyrchion papur sydd wedi'u trosi.

27. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/312/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer paentiau a farneisiau at ddefnydd mewnol neu allanol.

28. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/314/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer gwresogyddion dŵr.

29. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/336/EU sy'n diwygio Penderfyniadau 2006/799/EC, 2007/64/EC, 2009/300/EC, 2009/894/EC, 2011/330/EU, 2011/331/EU a 2011/337/EU er mwyn estyn dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i rai cynhyrchion.

30. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/345/EU sy'n diwygio Penderfyniad 2012/481/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer papur print.

31. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/350/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cynhyrchion tecstil.

32. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/391/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer matrysau gwely.

33. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/763/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cynhyrchion hylendid amsugnol.

34. Penderfyniad gan y Comisiwn 2014/893/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cynhyrchion cosmetig i'w rinsio i ffwrdd.

35. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2015/801 ynghylch dogfen gyfeirio ar arferion rheoli amgylcheddol gorau, dangosyddion perfformiad amgylcheddol sector a meincnodau rhagoriaeth ar gyfer y sector masnach manwerthu o dan Reoliad (EC) Rhif 1221/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyfranogiad gwirfoddol sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio Cymunedol (EMAS).

36. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2015/877 sy'n diwygio Penderfyniadau 2009/568/EC, 2011/333/EU, 2011/381/EU, 2012/448/EU a 2012/481/EU er mwyn

estyn dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i rai cynhyrchion.

37. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2015/886 sy'n diwygio Penderfyniad 2014/312/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer paentiau a farneisiau at ddefnydd mewnol neu allanol.

38. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2015/2099 sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cyfrwng tyfu, deunydd gwella pridd a thomwellt.

39. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2016/397 sy'n diwygio Penderfyniad 2014/312/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer paentiau a farneisiau at ddefnydd mewnol neu allanol.

40. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2016/611 ynghylch y ddogfen gyfeirio ar arferion rheoli amgylcheddol gorau, dangosyddion perfformiad amgylcheddol sector a meincnodau rhagoriaeth ar gyfer y sector twristiaeth o dan Reoliad (EC) Rhif 1221/2009 ynghylch y cyfranogiad gwirfoddol gan sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio Cymunedol (EMAS).

41. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2016/1332 sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i ddodrefn.

42. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2016/1371 sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cyfrifiaduron personol, nodiaduron a llechenni.

43. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/175 ynghylch sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer llety i dwristiaid.

44. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/176 ynghylch sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer gorchuddion llawr pren, corc a bambw.

45. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1214 sy'n sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer glanedyddion golchi llestri.

46. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1215 sy'n sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer glanedyddion golchi llestri at ddefnydd diwydiannau a sefydliadau.

47. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1216 sy'n sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer glanedyddion golchi llestri.

48. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1217 sy'n sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer cynhyrchion glanhau arwynebau caled.

49. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1218 sy'n sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer glanedyddion golchi dillad.

50. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1219 sy'n sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer glanedyddion golchi llestri at ddefnydd diwydiannau a sefydliadau.

51. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1392 sy'n diwygio Penderfyniad 2014/350/EU sy'n sefydlu'r meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer cynhyrchion tecstil.

52. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1508 ynghylch y ddogfen gyfeirio ar arferion rheoli amgylcheddol gorau, dangosyddion perfformiad amgylcheddol y sector a meincnodau rhagoriaeth ar gyfer y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod o dan Reoliad (EC) Rif 1221/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyfranogiad gwirfoddol sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio Cymunedol (EMAS).

53. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/1525 sy'n diwygio Penderfyniad 2014/256/EU er mwyn estyn dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i gynhyrchion papur sydd wedi'u trosi.

54. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/2076 sy'n diwygio Penderfyniad 2009/607/EC o ran cyfnod dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i orchuddion caled.

55. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2017/2285 dyddiedig 6 Rhagfyr 2017 sy'n diwygio canllaw'r defnyddiwr ac sy'n nodi'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cymryd rhan yn EMAS, o dan Reoliad (EC) Rhif 1221/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y cyfranogiad gwirfoddol gan sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio Cymunedol (EMAS).

56. Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2017/2286 ynghylch cydnabod gofynion y system rheoli amgylcheddol Eco-Oleudy er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfatebol y cynllun eco reolaeth ac archwilio (EMAS), a hynny'n unol ag Erthygl 45 o Reoliad (EC) Rhif 1221/2009 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y cyfranogiad gwirfoddol gan sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio Cymunedol (EMAS).

57. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2018/59 sy'n diwygio Penderfyniad 2009/300/EC o ran cynnwys a chyfnod dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE i setiau teledu.

58. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2018/666 sy'n diwygio Penderfyniad 2014/312/EU o ran cyfnod dilysrwydd y meini prawf ecolegol ar gyfer dyfarnu Ecolabel yr UE ar gyfer paentiau a farneisiau at ddefnydd mewnol neu allanol.

59. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2018/680 sy'n sefydlu meini prawf Ecolabel yr UE ar gyfer gwasanaethau glanhau dan do.

60. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2018/813 ynghylch y ddogfen gyfeirio sectoraidd ar arferion rheoli amgylcheddol gorau, dangosyddion perfformiad amgylcheddol y sector a meincnodau rhagoriaeth ar gyfer y sector amaethyddiaeth o dan Reoliad (EC) Rhif 1221/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y cyfranogiad gwirfoddol gan sefydliadau mewn cynllun eco reolaeth ac archwilio Cymunedol (EMAS).

61. Penderfyniad gan y Comisiwn (EU) 2018/993 sy'n diwygio Penderfyniadau (EU) 2017/1214, (EU) 2017/1215, (EU) 2017/1216, (EU) 2017/1218 a (EU) 2017/1219 o ran hyd y cyfnod trosiannol.

<u>Is-ddeddfwriaeth Ddomestig - wedi'i diddymu</u>

62. Gorchymyn Atal a Rheoli Llygredd (Dynodi’r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol) (Alltraeth) 2013;

63. Gorchymyn Atal a Rheoli Llygredd (Dynodi'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig) (Alltraeth) 2018

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r OS yn ymwneud â meysydd lle mae eu cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru'n cael eu cadw cyn belled ag y bo modd mewn cysylltiad â chyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw. Mae pwerau presennol Gweinidogion Cymru, er mwyn mynd i'r afael â diffygion, wedi'u diwygio i sicrhau y byddant yn gallu parhau i gyflwyno deddfwriaeth ar ôl y diwrnod ymadael, er enghraifft mewn cysylltiad â rheoli llygredd ac allyriadau.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r OS hwn, sy'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol, yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r OS hwn yn gwneud diwygiadau technegol a chyfreithiol er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn parhau'n weithredol yn y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Er enghraifft, mae EPA 1990, EA 1995 a PPCA 1999 oll yn cyfeirio at rwymedigaethau fel un o Aelod-Wladwriaethau'r UE, ac at ddeddfwriaeth yr UE. Bydd y cyfeiriadau hyn un ai'n amhriodol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE neu ni fyddant bellach yn weithredol ar lefel gyfreithiol heb iddynt gael eu diwygio.

Yn EA 1995 mae diwygiadau i'r pŵer sy'n galluogi asiantaethau priodol i osod taliadau mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir. O safbwynt Cymru, yr asiantaeth briodol yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd modd i Cyfoeth Naturiol Cymru bellach godi ffioedd mewn perthynas â swyddogaethau perfformio a gaiff eu rhoi gan Reoliad (EC) Rhif 1005/2009 (Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn) a Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio), y darperir ar eu cyfer yn yr OS Ymadael â'r UE ar Reoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio a Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn (Ymadael â'r UE) sydd i'w gosod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ym mis Rhagfyr.

YN EPA 1990, mae'r diwygiadau'n dargadw pŵer Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth, gynt mewn cysylltiad â 'Rhwymedigaethau'r UE' ond ar ôl y diwrnod ymadael, mewn cysylltiad â 'Rhwymedigaethau'r UE a ddargedwir' fel y'u mewnosodir yn Neddf Dehongli 1978 gan Ddeddf yr UE (Ymadael) Atodlen 8.

Diben y diwygiadau i PPCA 1999 yw galluogi rheoliadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd o dan adran 2 y PPCA i gael eu gwneud mewn cysylltiad â rheoli llygredd/allyriadau o fewn cwmpas cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen y Ddeddf.

Mae'r dirymiadau a gynhwysir o fewn yr OS hwn yn angenrheidiol o ran cynlluniau Eco Reolaeth ac Archwilio a chynlluniau Ecolabel. Ni fydd y rhain yn gyfredol neu ni fydd

ganddynt unrhyw swyddogaethau pellach unwaith y bydd y DU wedi ymadael â'r UE, caiff y rhain eu dirymu a byddant yn dod i ben ar y diwrnod ymadael. Ni all y cynlluniau hyn fod yn gymwys yn y DU yn sgil ymadael â'r UE. Ni fydd gan gyrff cenedlaethol bellach yr awdurdod i gofrestr busnesau o dan EMAS neu ddyfarnu Ecolabeli, ac ni fydd cofrestriadau presennol y DU nac Ecolabeli bellach yn ddilys.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gyson ac ystyrlon. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.